OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2011 Rhif 885 (Cy.129)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Ffioedd Myfyrwyr (Symiau) (Cymru) 2011

Gwnaed - - - -	*21 Mawrth 2011*
Yn dod i rym - -	*31 Mawrth 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adrannau 28(6) a 47(5) o Ddeddf Addysg Uwch 2004(**1**) ac sydd bellach yn arferadwy ganddynt hwy(**2**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Dyma'r rheoliadau cyntaf i gael eu gwneud o dan adran 28(6) o'r Ddeddf honno sy'n rhagnodi'r swm sylfaenol a'r swm uwch at ddibenion yr adran honno.

Yn unol ag adran 26(1) o'r Ddeddf honno(**3**) gosodwyd drafft o'r Rheoliadau hyn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'i gymeradwyo ganddo drwy benderfyniad.

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Ffioedd Myfyrwyr (Symiau) (Cymru) 2011 ac maent yn dod i rym ar 31 Mawrth 2011.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn—

mae i "cwrs rhyngosod" ("*sandwich course*") yr ystyr a roddir iddo yn rheoliad 2(6) o Reoliadau Grantiau a Benthyciadau Dysgu y Cynulliad (Addysg Uwch) (Cymru) 2011(**4**);

ystyr "Deddf 2004" ("*the 2004 Act*") yw Deddf Addysg Uwch 2004;

(**1**) 2004 p.8. Mae diwygiadau i adran 28 nad ydynt yn berthnasol at ddibenion y Rheoliadau hyn.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraffau 30(1) a 30(2)(c) o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

(**3**) Yr un yw'r swyddogaeth o ragnodi'r swm sylfaenol a'r swm uwch sydd bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru o dan adran 28(6) o Ddeddf Addysg Uwch 2004 neu yr un swyddogaeth yw hi yn sylweddol â swyddogaeth yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 24(6) o'r Ddeddf honno. O dan adran 26(1) o'r Ddeddf honno, ni chaniateir gwneud y rheoliadau cyntaf o dan adran 24(1) o'r Ddeddf honno sy'n rhagnodi'r swm sylfaenol a'r swm uwch oni chafodd drafft o'r rheoliadau eu gosod gerbron dau Dŵr Senedd a'i gymeradwyo ganddynt drwy benderfyniad. Yn rhinwedd paragraff 34(2) o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), mae'r ddarpariaeth yn gymwys i Weinidogion Cymru wrth iddynt arfer y swyddogaeth o wneud y rheoliadau cyntaf fel pe bai unrhyw gyfeiriad at unrhyw un o ddau Dŵr Senedd yn gyfeiriad at Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

(**4**) O.S. 2011/148 (Cy.32).